**Eitem ar yr agenda: 3(i)**

**AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU**

Dyma gofnodion y cyfarfod o Banel Gweithredol Awdurdod Tân Gogledd Cymru a gynhaliwyd dydd Llun 18fed Hydref 2004 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, y Rhyl. Dechreuodd y cyfarfod am 10 y bore.

**Yn bresennol:**

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| T Roberts (Cadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| M Williams (Is-Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| S C Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| J M Vaughan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Jones MBE | Cyngor Sir Ddinbych |
| J A Smith | Cyngor Sir Ddinbych |
| D Barratt | Cyngor Sir y Fflint |
| E F Evans | Cyngor Sir y Fflint |
| E Morgan Jones | Cyngor Gwynedd |
| W J Chorlton | Cyngor Sir Ynys Môn |
| J A Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); I R Miller (Clerc a Swyddog Monitro); K W Finch (Trysorydd i'r Awdurdod); C Enness (Dirprwy Brif Swyddog Tân); C Hanks (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cynnal y Gwasanaethau); P S Claydon (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyflwyno'r Gwasanaethau); P L Slee (Prif Swyddog Cynorthwyol, Gwasanaethau Corfforaethol); S Morris (Swyddog Prosiectau); a Rh Evans (Swyddog Cyswllt Aelodau).

**RHAN I**

**1) Ymddiheuriadau**

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| G M Craddock | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| E C George | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

## 2) Rhybudd o Faterion Brys

Dywedodd y Cadeirydd fod yr eitemau busnes canlynol wedi cael eu cyflwyno i'w hystyried:

i. Cyflwyno tariannau swyddogol Awdurdod Tân Gogledd Cymru i gyn-aelodau'r Awdurdod
ii. Y diweddaraf am y Datganiad Alldro a ragwelir 2004/05

## 3) Cofnodion

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol:

i. cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 26ain Awst 2004

***Penderfynwyd: - cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion***

## 4) Materion yn codi

**Tud 7, Eitem 7: Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 –** Dywedodd y Clerc fod yr Ysgrifennydd Gwladol, yn dilyn rhoi Cydsyniad Brenhinol ar 22ain Gorffennaf 2004, wedi gwneud gorchymyn cychwyn a oedd wedi dod â'r Ddeddf i rym yn Lloegr o 1 Hydref 2004 ymlaen. Gan mai disgwyl yr oeddid am orchymyn cychwyn yng Nghymru, roedd awdurdodau tân yng Nghymru'n dal i weithredu dan yr 'hen' Ddeddfau. Felly ar y pryd, roedd Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (ODPM) yn gyfrifol am weithredu'r gwasanaethau tân ac achub dan ddwy ddeddfwriaeth wahanol hyd nes y byddai'r Cynulliad yn gwneud gorchymyn cychwyn ac yn cymryd y cyfrifoldeb am y gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru. Rhoddodd y Prif Swyddog Tân wybod i'r aelodau ei fod yn ddiweddar wedi derbyn gwybodaeth a oedd yn dweud bod trefniant i roi gorchymyn cychwyn gerbron y sesiwn lawn o'r Cynulliad Cenedlaethol ar 10fed Tachwedd; a'r Ddeddf yn dod i rym yng Nghymru ar 11eg Tachwedd 2004. Cadarnhaodd y Clerc fod y Cynulliad i'w weld yn oedi wrth gyflwyno gwahanol ddeddfau yng Nghymru o'i gymharu ag yn Lloegr a'r Alban. Gofynnodd y Cynghorydd D Jones i'w anfodlonrwydd â'r sefyllfa bresennol gael ei gofnodi, er ei fod yn ymwybodol nad oedd dim y gallai'r Awdurdod ei wneud am yr oedi.

**Tud. 9, Eitem 10: Materion Brys – Recriwtio Diffoddwyr Tân Rhan Amser:** Yn ogystal â mater recriwtio diffoddwyr tân rhan amser, holodd y Cynghorydd W J Chorlton am y sefyllfa bresennol o ran recriwtio diffoddwyr tân llawn amser. Dywedodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân fod ymarferiad wrthi'n cael ei gynnal gyda'r bwriad o ragweld nifer yr ymddeoliadau yn yr ychydig flynyddoedd nesaf. Byddai'r ymarferiad hwn yn gymorth i Swyddogion benderfynu ar y dull mwyaf priodol i'w ddilyn ar gyfer recriwtio yn y dyfodol. Roedd y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn dangos bod 4 o ddiffoddwyr tân llawn amser yn mynd i ymddeol yn ystod y flwyddyn nesaf. Holodd y Cynghorydd Chorlton hefyd am nifer y staff llawn amser sydd wedi cael eu symud o'u lle gweithio arferol gan ei fod yn bryderus fod rhai gorsafoedd efallai yn gweithredu gyda llai

o staff na'u niferoedd llawn. Dywedodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân fod nifer o staff wedi cael eu symud am wahanol resymau, yn cynnwys datblygiad gyrfa. Gofynnodd y Cadeirydd am i'r Panel gael adroddiad, er gwybodaeth, yn rhestru nifer y staff oedd ar ddyletswyddau adleoliad dros dro am wahanol resymau. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - y dylai'r Swyddogion gyflwyno adroddiad i'r Panel Gweithredol yn rhestru nifer y staff ar adleoliad dros dro o'u lle gweithio arferol***

**Tud. 10 - Eitem 12: Hen Orsaf Dân Llanfairfechan –** Dywedodd y Prif Swyddog Tân wrth yr aelodau fod datblygiad pellach wedi cymryd lle ers y cyfarfod diwethaf o'r Panel Gweithredol: yn ddiweddar roedd y darpar denant wedi cysylltu â'r Swyddogion i fynegi diddordeb mewn prynu'r safle o'r dechrau yn hytrach na'i brydlesu. Felly, roedd y Prif Swyddog Tân o'r farn fod raid cyfeirio'r mater yn ôl i'r Awdurdod i gael penderfyniad. Roedd y Cynghorydd S C Jones o'r farn y dylai'r Awdurdod wneud pob ymdrech i blesio'r darpar brynwr gan mai cwmni cymunedol ydoedd oedd yn bwriadu cael y safle er lles y gymuned leol. Er mwyn i'r aelodau benderfynu ar y cam nesaf i'r safle:

***<u>Penderfynwyd</u>: - cyflwyno adroddiad i'r cyfarfod o'r Awdurdod Tân ar 20fed Rhagfyr 2004 yn rhoi manylion am y cynnig gan y darpar brynwr ac yn cynnwys yr holl gostau cysylltiedig***

## 5) Penodi Hyrwyddwr E-Lywodraeth

Rhoddodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cynnal y Gwasanaethau) wybod i'r aelodau fod angen i'r Awdurdod, yn dilyn etholiadau'r awdurdodau lleol a'r newidiadau o'r herwydd i aelodaeth Awdurdod Tân Gogledd Cymru, benodi aelod i fod yn Hyrwyddwr E- Lywodraeth yn lle'r cyn-gynghorydd D M Morris. Esboniodd y byddai'r aelod a benodir yn gyfrifol am gymryd yr awenau am gyflwyno E-Lywodraeth o safbwynt yr aelodau. Ceisiodd y Cadeirydd enwebiadau'r Panel ar gyfer y swydd. Enwebwyd y Cynghorydd Malcolm Williams ac eiliwyd hynny, ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - penodi'r Cynghorydd Malcolm Williams yn Hyrwyddwr E-Lywodraeth Awdurdod Tân Gogledd Cymru a rhoi gwybod i Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog ei fod wedi ei benodi***

## 6) Y Cynllun Integredig Rheoli Risg 2

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad a chynllun gweithredu ail flwyddyn y Cynllun Integredig Rheoli Risg (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i'r aelodau gyda'r bwriad o'u cael i gytuno ar y Cynllun Gweithredu er mwyn gallu cynnal ymgynghoriad cyhoeddus. Esboniodd i'r Panel fod yr adroddiad hwn yn barhad o'r adroddiadau blaenorol a gyflwynwyd i'r aelodau yn y cyfarfod diwethaf o'r Panel ar 26ain Awst 2004 a'r cyfarfod o'r Awdurdod Tân a gynhaliwyd ar 20fed Medi 2004. Roedd y cyfarfod ym mis Medi wedi awdurdodi'r Panel i lunio'r cynllun gweithredu ail flwyddyn arfaethedig a gwneud unrhyw welliannau,

ychwanegiadau a newidiadau roeddent yn eu gweld yn briodol cyn ymgynghori â'r cyhoedd ar y cynigion ar ran yr Awdurdod. Dywedodd y Prif Swyddog Tân wrth yr aelodau fod y swyddogion, yn ystod cyfarfodydd diweddar gyda swyddogion y Cynulliad Cenedlaethol a chynrychiolwyr y Comisiwn Archwilio yng Nghymru, wedi cael eu sicrhau mai'r Cynllunio Integredig Rheoli Risg fyddai'n parhau i fod y cyfrwng y byddai'r gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru'n cael eu moderneiddio trwyddo. Cadarnhaodd hefyd fod y ddogfen Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella i'r awdurdodau tân ac achub i fod i gael ei chyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad yn ystod Tachwedd 2004.

Gwahoddwyd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau) Paul Claydon i restru cynnwys y cynllun gweithredu ail flwyddyn i'r aelodau. Esboniodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Claydon fod y cynllun gweithredu, o'r enw "Eich Gwasanaeth, Eich Diogelwch, Eich Llais", yn unol â'r canllawiau a dderbyniwyd, wedi cael ei lunio gyda'r bwriad o ategu cynllun gweithredu Cynllun Risg cyntaf yr Awdurdod, a'i ddwyn yn ei flaen, nid ei ddisodli. Yna, aeth yn ei flaen i fynd â'r Panel trwy'r meysydd risg a restrwyd yn y ddogfen, gan fanylu ar oblygiadau ariannol pob cynnig, sut roedd pob un yn cysylltu â'r cynigion yn y cynllun gweithredu cyntaf, a'r camau oedd ei hangen i reoli pob maes risg. Cafodd y Panel hefyd grynodeb o'r cynnydd hyd yn hyn ynghyd â gwybodaeth am yr amcanion ar gyfer yr ail flwyddyn o safbwynt pob maes risg penodol. Wrth restru pob maes risg oedd yn y cynllun gweithredu drafft gwahoddodd y Prif Swyddog Tân a'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Claydon gwestiynau'r aelodau, a'u hateb. I ateb cwestiynau'r aelodau dywedodd y Swyddogion fod y broses o roi strwythur reolaethol newydd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar waith, yn seiliedig ar ardaloedd yr awdurdodau unedol, wedi dechrau. Roedd strwythur gysgodol eisoes mewn lle i baratoi ar gyfer ei rhoi ar waith yn llawn ar 1af Rhagfyr 2004. Roedd y Rheolwyr Grŵp a'r Rheolwyr Diogelwch Cymunedol yn eu swyddi ac ar hyn o bryd yn astudio ac yn gwneud sylwadau ar gynllun diogelwch cymunedol pob awdurdod lleol. Cafodd yr aelodau wybod ei bod yn galonogol adrodd ar nifer o agweddau cadarnhaol iawn o waith y Gwasanaeth yn y gymuned: sefydlu cangen newydd o Gymdeithas y Diffoddwyr Tân Ifanc yng Nghaergybi, ac enwebu aelod o staff y Gwasanaeth yn Arweinydd Tîm y Flwyddyn gan Ymddiriedolaeth y Tywysog. Dyma'r ail dro yn olynol i aelod o'r staff gael ei enwebu ar gyfer y wobr yma.

O ran maes risg 3 "Mae galwadau diangen gan Larymau Tân Awtomatig yn Beryglus", cafodd yr aelodau wybod bod nodiadau cyfarwyddyd ar gyfer ystyried polisïau i ymdrin â galwadau diangen gan larymau tân awtomatig wedi cael eu cyhoeddi'n ddiweddar. Dywedodd y Prif Swyddog Tân fod y cyfarwyddyd i'w weld yn wahanol iawn i rai o'r dulliau a gafodd eu treialu mewn sawl ardal ar y ffordd fwyaf effeithiol o ddelio â'r math yma o ddigwyddiadau. Maes o law, byddai angen i'r Awdurdod benderfynu a oedd yn mynd i fabwysiadu'r gweithdrefnau a amlinellwyd yn y cyfarwyddyd ar gyfer delio â'r galwadau yma ynteu a fyddai'n dilyn ffordd arall o fynd ati. Dywedodd y Prif Swyddog Tân fod perchnogion y "systemau trafferthus" i'w gweld yn fwy parod i drafod gyda'r Gwasanaeth sut fyddai orau i reoli'r

systemau ers i'r syniad am godi tâl o bosib am ymateb i "systemau trafferthus" gael ei awgrymu. Addawodd ysgrifennu at yr aelodau i roi manylion y gweithdrefnau oedd eisoes wedi cael eu datblygu gan yr Awdurdod ar gyfer lleihau'r ymateb i'r mathau yma o alwadau, gan gynnwys nifer y galwadau a dderbyniwyd, y dulliau y penderfynir troi allan ai peidio a'r arbedion a gafwyd hyd yn hyn. Pwysleisiodd y Prif Swyddog Tân nad cost oedd prif ddiben mabwysiadu ffordd newydd o fynd o'i chwmpas, ond er mwyn sicrhau bod peiriannau a staff ar gael i fynd at argyfyngau go iawn.

O ran maes risg 5 sef "Dydy ein diwrnodiau gwaith ddim yn cyd-fynd â'n hamseroedd prysur" cafodd yr aelodau wybod y byddai'r amseroedd cychwyn a gorffen newydd y system shifftiau ar orsafoedd criw dydd, a gymeradwywyd dan Gynllun Risg cyntaf yr Awdurdod, yn dod yn weithredol o Ionawr 2005 ymlaen. Yn dilyn derbyn cyngor cyfreithiol roedd y rhybudd statudol 90 diwrnod i newid yr amseroedd shifftiau wedi cael ei anfon at holl staff yr ochr weithredol oedd yn gweithio ar y system criw dydd. Gofynnodd y Panel i bob cyfeiriad at "gytundebau rhan amser" yn y maes risg hwn gael eu newid, er eglurder, am ddisgrifiad mwy priodol, a bod pwynt ychwanegol yn cael ei gynnwys yn y maes "Beth ydym am ei wneud am hynny": "monitro am effeithiolrwydd yr amseroedd cychwyn a gorffen shifftiau ar orsafoedd criw dydd". I ateb pwynt a godwyd ynghylch a fyddai'n briodol i'r Awdurdod gael adroddiad yn rhoi'r diweddaraf am y cynnydd a wnaed hyd yn hyn ar gynllun gweithredu'r flwyddyn gyntaf, dywedodd y Prif Swyddog Tân fod y ffaith fod yr anghydfod diwydiannol wedi dwysáu yn ystod yr haf, wedi golygu nad oedd rhai o'r newidiadau oedd yng nghynllun gweithredu'r flwyddyn gyntaf wedi cael eu gweithredu hyd nes y cafodd yr anghydfod ei ddatrys. Felly, byddai'n anodd tu hwnt, os nad yn rhy gynnar, i ddarparu adroddiad cynnydd o werth ar yr adeg hon.

Ar faes risg 6 "Ydy'r cydbwysedd yn iawn?" sicrhawyd y Panel gan y Prif Swyddog Tân a'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Claydon y byddai canlyniadau'r prosiectau a'r adolygiadau a gynhaliwyd yn cael eu dadansoddi'n fanwl cyn gwneud unrhyw benderfyniadau. Byddai'r canlyniadau a'r argymhellion yn cael eu hadrodd i'r Panel maes o law. Byddai angen i'r aelodau gymeradwyo unrhyw newidiadau arfaethedig i leoliad staff yr ochr weithredol oedd yn griwiau rheng flaen a pheiriannau arbenigol. Holodd y Cynghorydd W J Chorlton a oedd y Swyddogion yn ymwybodol o erthygl ddiweddar a ymddangosodd mewn papur dydd Sul yn dweud bod cwmni preifat yn edrych ar y posibiliadau o weithredu ystafelloedd rheoli'r gwasanaeth tân ac achub. Atgoffwyd yr aelodau gan y Prif Swyddog Tân fod y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn y Cynulliad wedi ailadrodd droeon ei hymrwymiad i gadw'r tri awdurdod tân yng Nghymru, ynghyd a'u hystafelloedd rheoli ar wahân cyhyd ag y gellir rhagweld. Ni ellid sicrhau na fyddai adolygiad o'r ystafelloedd rheoli fyth yn digwydd.

O ran maes risg 7 "Tanau Bwriadol yn Fygythiad Cynyddol" cafodd yr aelodau wybod bod yr Awdurdod ar hyn o bryd yn gwneud cynnydd aruthrol yn y maes

hwn, yn enwedig o ran y trefniadau ar gyfer sefydlu "Tîm Lleihau Tanau Bwriadol" yng Ngogledd Cymru.

Ar faes risg 8 "Chafodd y Gwasanaeth mo'i sefydlu ar gyfer hyn – All ein strwythur mo'i gynnal" cafodd y Panel wybod bod gwaith cynllunio pwysig yn digwydd ar y strwythur drefniadaethol fewnol newydd ac roedd y trefniadau newydd i fod yn llwyr weithredol o'r 1af Rhagfyr 2004.

Yna, aeth y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Claydon yn ei flaen i esbonio fod y pedwar maes a glustnodwyd fel "Yr Heriau i ddod" yn y Cynllun Risg gwreiddiol i'w cynnwys eto dan yr adran hon yn y cynllun gweithredu ail flwyddyn. Roedd angen cryn waith ymchwil pellach ar y meysydd hyn cyn y gellid dod i unrhyw gasgliadau cadarn. I ateb cais am gael adroddiad yn rhestru'r goblygiadau ariannol ac o ran adnoddau cyd-ymateb a sut y byddai cyd-ymateb yn effeithio ar y Gwasanaeth Ambiwlans, dywedodd y Prif Swyddog Tân a'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Claydon fod y gwaith ymchwilio rhagbaratoawl a wnaed hyd yn hyn yn dal yn y camau cynnar, a gan nad oedd dogfen y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Cymru wedi cael ei chyhoeddi, byddai'n amhriodol ac yn rhy gynnar ar hyn o bryd i gyflwyno unrhyw ganfyddiadau i'r Awdurdod. Roedd fwy neu lai'n bendant y byddai cyd-ymateb yn cael ei gynnwys yn nogfen y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Cymru ac felly byddai'n dod yn orfodol i awdurdodau tân ac achub ddarparu'r gwasanaeth. Unwaith y byddai gwybodaeth fanwl ar gael byddai hyn yn cael ei adrodd i'r Panel.

Roedd y Cynghorydd S C Jones o'r farn mai her arall ar gyfer y dyfodol oedd goblygiadau cost cynllun pensiwn y diffoddwyr tân. Cafodd yr aelodau wybod gan y Prif Swyddog Tân fod papur ymgynghorol wedi cael ei gyhoeddi'n ddiweddar ar gynllun pensiwn newydd arfaethedig ar gyfer y diffoddwyr tân. Roedd angen ymatebion i'r cynigion erbyn 14eg Ionawr 2005. Atgoffwyd yr aelodau gan y Prif Swyddog Tân fod yr Awdurdod, oherwydd ei reolaeth ariannol darbodus, mewn sefyllfa ffodus o fod wedi rhagweld yr effaith o ran cost yr ymddeoliadau yn y dyfodol ac felly roeddent wedi darparu ar ei gyfer. Roedd y ddarpariaeth yma'n cael ei hadolygu'n rheolaidd a chyflwynid adroddiad i'r Awdurdod yn flynyddol, adroddwyd ynghylch y sefyllfa ddiweddaraf i'r Awdurdod yn ei gyfarfod ym Medi 2004.

Cafodd y Panel wybod bod y bwriad ar gyfer ymgynghori ar y cynllun gweithredu ail flwyddyn i ddilyn yr un dull ag a fabwysiadwyd ar gyfer y Cynllun Risg gwreiddiol a'r cynllun gweithredu, a'r ymatebion i ddod i law erbyn 31ain Ionawr 2005. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: -***

- ***i. nodi cynnwys yr adroddiad;***
- ***ii. gwneud y newidiadau canlynol i faes risg 5 "Dydy ein diwrnodiau gwaith ddim yn cyd-fynd â'n hamseroedd prysur" yn y cynllun gweithredu drafft:***

- ***er mwyn eglurder, rhoi disgrifiad mwy priodol yn lle'r term cytundebau "rhan amser" yn y maes risg hwn, a***
- ***cynnwys pwynt ychwanegol yn blwch "Beth rydym yn bwriadu ei wneud nesaf" sef – "monitro am effeithiolrwydd yr amseroedd cychwyn a gorffen shifftiau ar orsafoedd criw dydd";***

***iii. bod Swyddogion yn dechrau ar ymarferiad ymgynghori gyda'r cyhoedd ar y cynllun gweithredu ail flwyddyn gyda'r ymatebion i'w derbyn erbyn 31ain Ionawr 2005; ac***

***iv. yn dilyn yr ymgynghoriad, cyflwyno adroddiad i'r Panel Gweithredol i ystyried gwneud unrhyw newidiadau i'r cynllun gweithredu ail flwyddyn cyn ei gyflwyno i'r Awdurdod Tân ar gyfer ei gymeradwyo erbyn 31ain Mawrth 2005***

## 7) Absenoldebau Salwch

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i roi gwybod i'r aelodau am y penderfyniadau a wnaed ganddo ef yn dilyn ymgynghori â'r Cadeirydd ynghylch caniatáu ymestyn tâl salwch. Esboniodd mai eitem wybodaeth safonol oedd hon, a bod y manylion fel yr oeddynt yn yr adroddiad. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi'r adroddiad***

## 8) Cynllun Lwfansau i Aelodau

Cyflwynodd y Clerc ei adroddiad a'r "Cynllun ar gyfer Talu Lwfansau i Aelodau" drafft (a ddosbarthwyd o flaen llaw) gyda golwg i geisio cael y Panel i gytuno ar argymhellion i'r Awdurdod Tân ar delerau cynllun Lwfansau i Aelodau yn dilyn cymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol i'r Rheoliadau. Diolchodd i'r Trysorydd a'r Prif Swyddog Cynorthwyol (Gwasanaethau Corfforaethol) am eu gwaith yn llunio'r Cynllun Drafft. Cyn manylu ar yr wybodaeth oedd yn ei adroddiad, ac i ateb cais a wnaed yn y cyfarfod diwethaf o'r Awdurdod Tân, darparodd y Clerc fanylion i'r aelodau am y lwfansau a delid i aelodau Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru.

Cafodd yr aelodau wybod gan y Clerc bod y swyddogion, wrth lunio'r Cynllun, wedi rhagdybio y byddai'r Awdurdod yn dymuno talu'r uchafswm a ganiateid gan y Rheoliadau. Dywedodd y Cadeirydd wrth y Panel ei fod wedi trafod y mater gyda'r Swyddogion ac wedi gofyn am gynnig yr uchafswm, gan nad oedd y Rheoliadau'n caniatáu ôl-ddyddio taliadau am unrhyw gyfnod cyn 29ain Medi 2004, sef y dyddiad y daeth y Rheoliadau i rym. Yna, aeth y Cadeirydd yn ei flaen i ddarllen e-bost a dderbyniodd gan y Cynghorydd D D Millar yn dilyn cyfarfod yr Awdurdod Tân ym mis Medi. Yn ei e-bost roedd y Cynghorydd Millar yn dweud nad oedd yn gwrthwynebu talu Lwfans Cyfrifoldeb Arbennig i Gadeirydd ac Is-Gadeirydd yr Awdurdod, ond roedd yn teimlo y dylai talu lwfans sylfaenol i'r holl aelodau fod yn ddibynnol ar bresenoldeb mewn cyfarfodydd. I ateb y pwynt hwn dywedodd y Clerc nad oedd y Rheoliadau'n darparu ar gyfer gwneud cyswllt gyda phresenoldeb. Felly, ni fyddai'r Awdurdod yn gallu

cynnwys amod i'r perwyl hwnnw yn ei Gynllun. Dywedodd aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy o'r Panel nad oedd y Cynghorydd Millar bellach yn gynrychiolydd ar yr Awdurdod. Roedd Grŵp Ceidwadol y Cyngor yn ddiweddar wedi cyflwyno enwebiad arall i gymryd ei le i Gabinet y Cyngor. Dywedodd y Clerc nad oedd ef wedi cael ei hysbysu ynghylch unrhyw newidiadau i'r aelodaeth yn ddiweddar.

Cafodd yr aelodau wybod gan y Clerc y dylai ceisiadau am dreuliau yn ymwneud â busnes a ganiatawyd gan yr Awdurdod bellach gael eu cyflwyno i'r Swyddog Cyswllt Aelodau ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, ac nid i'w cynghorau eu hunain. Yn dilyn y cyfarfod, byddai llythyr yn cael ei anfon at holl aelodau'r Awdurdod yn eu hysbysu am y drefn newydd. Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau gadw cofnod o unrhyw filltiroedd roeddent wedi eu teithio ar fusnes a ganiatawyd gan yr Awdurdod, ac unrhyw dderbynebau am luniaeth a brynwyd er mwyn iddynt allu hawlio ad-daliad unwaith y byddai'r Cynllun yn derbyn cymeradwyaeth. Tynnodd sylw'r aelodau at y ffaith na ellid gwneud unrhyw daliadau hyd nes y byddai'r Cynllun wedi cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod Tân yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2004, ond y byddai'r ad-daliadau'n cael eu gwneud wedyn yn unol â darpariaethau'r Cynllun. Cafodd y Panel wybod gan y Clerc nad oedd y Cynllun yn darparu ar gyfer talu unrhyw lwfansau neu dreuliau i aelodau dirprwyedig. Felly, petai rhywun yn dirprwyo ar ran aelod mewn cyfarfod o'r Awdurdod ni fyddent yn gymwys i hawlio lwfans, a'r awdurdod cyfansoddol fyddai'n gyfrifol am gostau treuliau teithio a chynhaliaeth. Awgrymodd i'r Panel y byddai efallai, mewn cyfarfod arall, yn dymuno ystyried a ddylai arferiad presennol yr Awdurdod o ganiatáu aelodau dirprwyedig barhau.

I ateb cwestiwn gan y Cynghorydd D Barratt ynghylch a ddylai'r Awdurdod godi'r mater o wahaniaeth amlwg yn y graddfeydd lwfansau a delid i aelodau'r Awdurdod Tân o'u cymharu ag aelodau Awdurdod yr Heddlu, dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Rheoliadau'n cael eu hadolygu gan y Cynulliad wedi 18 mis. Awgrymodd y Clerc y byddai'r Awdurdod Tân efallai'n dymuno codi'r mater hwn gyda'r Cynulliad yn y dyfodol, ond pwysleisiodd fod Awdurdod yr Heddlu'n cyfarfod yn amlach na'r Awdurdod Tân ac fod ganddo fwy o bwyllgorau:

***<u>Penderfynwyd</u>: - argymell i'r Awdurdod Tân yn ei gyfarfod ar 20fed Rhagfyr 2004 i:***

***i. gymeradwyo'r Cynllun Drafft ar gyfer Talu Lwfansau i Aelodau a'i fabwysiadu fel cynllun Awdurdod Tân Gogledd Cymru;***
***ii. fod y "Dyletswyddau Cymeradwyedig" a restrwyd yn Atodlen 1 o'r Cynllun Drafft yn cael eu cytuno fel y rhestr dyletswyddau cymeradwyedig y gallai'r aelodau hawlio treuliau teithio a chynhaliaeth gan yr Awdurdod Tân mewn cysylltiad â "busnes a ganiateid";***
***iii. bod y graddfeydd ar gyfer y Lwfans Sylfaenol, y Lwfansau Cyfrifoldebau Arbennig a'r lwfansau teithio a chynhaliaeth sy'n***

***daladwy i aelodau'n cael eu cymeradwyo fel a restrwyd yn Atodlen 2 i'r Cynllun Drafft; a***

iv. ***bod llythyr yn cael ei anfon at holl aelodau'r Awdurdod Tân yn rhestru'r gweithdrefnau i'w dilyn o Hydref 2004 ymlaen ar gyfer cyflwyno unrhyw geisiadau am dreuliau ar fusnes a ganiatawyd gan yr Awdurdod Tân***

**9) Materion Brys**

i. **Cyflwyno tariannau swyddogol Awdurdod Tân Gogledd Cymru i gyn-aelodau'r Awdurdod:** Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r aelodau ei fod wedi derbyn cais, trwy law'r Cynghorydd J A Smith, y dylai'r holl aelodau sy'n ymddeol o'r Awdurdod dderbyn tarian swyddogol yr Awdurdod, gyda'r arfbais arno. Roedd yr aelodau o'r farn y dylid boddhau rhai meini prawf a chadw at brotocolau cyn cyflwyno tarian i aelod. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>*: - y dylid *cyflwyno adroddiad i'r cyfarfod o'r Awdurdod Tân ym mis Rhagfyr yn rhestru'r meini prawf arfaethedig i'w boddhau a'r protocolau i'w dilyn ar gyfer cyflwyno tariannau swyddogol Awdurdod Tân Gogledd Cymru i aelodau'r Awdurdod***

ii. **Y diweddaraf am y Datganiad Alldro a Ragwelir 2004/05:** Dywedodd y Trysorydd fod y Datganiad Alldro a Ragwelir wedi cael ei ailarchwilio yn dilyn yr ymholiad gan y Cynghorydd E F Evans yn y cyfarfod o'r Awdurdod ym mis Medi. Yn ystod y broses hon darganfuwyd camgymeriad ar un o'r taenlenni ac roedd hynny wedi arwain at gyfanswm anghywir yn cael ei roi ar y "Ffurf Gwerth Gorau" o'r Datganiad Alldro a Ragwelir. Roedd y camgymeriad, nad oedd yn newid y ffigwr alldro cyfan gwbl a adroddwyd i'r Awdurdod yn y cyfarfod hwnnw, wedi cael ei gywiro ers hynny. Roedd llythyr o eglurhad, gan gynnwys ymddiheuriad am y camgymeriad, ynghyd â chopi o'r datganiad alldro a ragwelir cywir, wedi cael ei anfon at yr holl aelodau. Dywedodd y Cynghorydd E F Evans ei fod yn fodlon gyda'r eglurhad a roddwyd.

**10) Dyddiad(au) cyfarfodydd i ddod**

Dywedodd y Cadeirydd fod y Cynghorydd E C George wedi gofyn i'r Panel roi ystyriaeth, wrth drefnu dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd i ddod, a ellid eu cynnal yn ystod y prynhawn gan ei fod yn cael trafferth mynychu ar fore Llun oherwydd ymrwymiadau eraill gyda'i awdurdod ei hun. Ystyriwyd a thrafodwyd y cais gan yr Aelodau ond roeddent o'r farn y byddai newid i'r prynhawn yn effeithio ar aelodau eraill. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - cynnal y cyfarfod nesaf o'r Panel Gweithredol ddydd Llun 31ain Ionawr 2005 am 10:30 y bore ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn y Rhyl***

**RHAN II**

Dim busnes.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:40 y bore.

**Cymeradwywyd yr uchod, gan gynnwys unrhyw newidiadau a ddangosir, yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion.**

**Arwyddwyd:** T Roberts **Dyddiedig:** 31 Ionawr, 2005